# THOMAS, WILLIAM (1832 - 1911), gweinidog gyda'r Annibynwyr

**Enw:** William Thomas
**Dyddiad geni:** 1832
**Dyddiad marw:** 1911
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** John Dyfnallt Owen

Ganwyd 26 Mawrth 1832 yn Nhroedrhiwfelen, plwyf Llangiwc, Sir Forgannwg. Ni chafodd nemor ddim addysg yn ei ddyddiau cynnar. Yr oedd ei rieni'n aelodau yng Nghwmllynfell, a derbyniwyd yntau yn aelod yno yn 8 oed. Ymroes yn ddiwyd i'w ddiwyllio'i hun drwy ddarllen, ysgrifennu, a dysgu cerddoriaeth; cadwai ysgol gân yn ifanc ar y Gwrhyd. Dechreuodd bregethu yng Nghwmllynfell dan weinidogaeth Rhys Pryse yn 1848; ymarferodd i fywyd cyhoeddus drwy fod yn athro yn yr ysgol, a thraddodi anerchiadau yn yr eglwys a'r cylch. Bu'n fyfyriwr yng Ngholeg Aberhonddu, 1852-55. Llafuriodd yn galed yn ei gwrs. Urddwyd ef yn weinidog Soar a Bethel, y T -gwyn-ar-Daf, 25 a 26 Rhagfyr 1855. Tyfodd yr achos yn fuan dan ei weinidogaeth; aeth Soar yn rhy fach i'r gynulleidfa ac adeiladwyd y Tabernacl. Enillodd ei le fel arweinydd mewn mudiadau dirwestol, addysgol, gwleidyddol, a chrefyddol. Yr oedd yn Rhyddfrydwr eiddgar ac yn Ymneilltuwr cadarn. Ysgrifennai i gylchgronau a newyddiaduron a chyhoeddodd amryw o lyfrau a phamffledau - *Hanes Diwygiadau yn Iwerddon*; *Hynafiaethau yr Hen D Gwyn ar Dâf*. Ei brif waith llenyddol oedd *Cofiant ... Rhys Pryse, Cwmllynfell*, 1872. Bu'n gadeirydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn 1890. Ymddeolodd yn 1908, a bu farw 26 Mawrth 1911.

## Awdur

**Y Parchedig John Dyfnallt Owen**, (1873 - 1956)

## Ffynonellau

*Album Aberhonddu ... o'r flwyddyn 1755 hyd 1880* (1898), 174-5

## Gweithiau

William Thomas, *Cofiant y diweddar Barch. Rhys Pryse, Cwmllynfell* (Llanelli 1872)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 103556958

Wikidata: Q20734708

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu